# PWYLLGOR PENODI AELODAU

Dydd Iau, 24 Awst 2017

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd W.R.A. Davies (Is-Gadeirydd yn y Gadair)

**Y Cynghorwyr:**
J.M. Charles, W.T. Evans, S.J.G. Gilasbey, C. Jones (yn lle A.D.T. Speake) a
A.S.J. McPherson

**Yr oedd y swyddogcanlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**

G. Morgan – Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd

**Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin - 2.00 - 2.10 pm**

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Suzy Curry ac Alan Speake

**2. DATGANIADAU O FFUDDIANNAU PERSONOL**

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

**3. AELODAETH CYRFF ALLANOL**

Atgoffwyd y Pwyllgor, yn dilyn Etholiadau Llywodraeth Leol yn ddiweddar, y byddai angen i'r Awdurdod benodi cynrychiolwyr i nifer o gyrff allanol.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod enwebiadau ar gyfer penodiadau wedi'u cyflwyno ar gyfer ystyriaeth gan y Pwyllgor, ar ôl ymgynghori ag Arweinwyr y Grwpiau Gwleidyddol, ac roedd y rhain wedi'u nodi yn Atodiad 1 yr adroddiad.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd, er bod mwyafrif yr enwebiadau ar gyfer seddau yn ddiwrthwynebiad, y byddai angen i'r Pwyllgor benderfynu pwy y dylid ei benodi i Bwyllgor Ysgoloriaeth Thomas ac Elizabeth Williams gan fod mwy o enwebiadau na nifer y seddau oedd ar gael, a rhoddodd amlinelliad cryno o feini prawf y Cynllun er gwybodaeth i'r aelodau.

Hefyd, dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd eu bod yn dal i aros am ddau enwebiad gan y Grŵp Llafur mewn perthynas â Bwrdd Iechyd Cymunedol Hywel Dda a Phwyllgor Ysgoloriaeth Minnie Morgan.

**PENDERFYNWYD bod penodiadau i gyrff allanol yn cael eu gwneud fel yr amlinellwyd yn Atodiad A yr adroddiad, yn amodol ar y canlynol:-**

- **Ar sail blaenoriaethau'r cynllun o ran preswylfan, fod yr aelodau canlynol yn cael eu penodi i Bwyllgor Ysgoloriaeth Thomas ac Elizabeth Williams:-**

  **Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a (6) o Gynghorwyr - Kim Broom, Tyssul Evans, Amanda Fox, Jeanette Gilasbey, John James a Hugh Shepardson.**

- **Bod yr enwebiadau sy'n weddill, fel y nodwyd yn Atodiad A, yn cael eu hystyried yn y cyfarfod nesaf.**

**4. COFNODION - 14EG RHAGFYR, 2016**

**PENDERFYNWYD llofnodi fel cofnod cywir gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Rhagfyr, 2016.**

**CADEIRYDD** _______________________ **DYDDIAD** _______________________